OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1293 (Cy.127)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*10 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*12 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol–

RHAN 1

Cyflwyniad

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006; maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 12 Mai 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan awdurdod lleol i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas â sir neu fwrdeistref sirol yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol honno;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") ym Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Rheoliad y Gymuned" ("*the Community Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion

(**1**) O.S. 2003/1246.
(**2**) 1972 p.68.

anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta(**3**) fel y'i diwygiwyd gan y canlynol ac fel y'i darllenir gyda hwy–

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 808/2003 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta(**4**);

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 811/2003 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwahardd ailgylchu mewnrywogaethol ar gyfer pysgod, claddu a llosgi sgil-gynhyrchion anifeiliaid a mesurau trosiannol penodol(**5**);

(c) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 813/2003 ar fesurau trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran casglu, cludo a gwaredu cyn-fwydydd(**6**);

(ch) Penderfyniad y Comisiwn 2003/326/EC ar fesurau trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gwahanu gweithfeydd oleocemegol Categori 2 a Chategori 3(**7**);

(d) Penderfyniad y Comisiwn 2004/407/EC ar reolau iechydol ac ardystio trosiannol o dan Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran mewnforio gelatin ffotograffig o drydydd gwledydd penodol(**8**);

(dd) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 668/2004 sy'n diwygio Atodiadau penodol i Reoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, o ran mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd (**9**);

(e) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 878/2004 sy'n gosod mesurau trosiannol yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid penodol a ddosberthir yn ddeunyddiau Categori 1 a 2 ac a fwriedir at ddibenion techchnegol(**10**);

(h) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 79/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran defnyddio llaeth, cynhyrchion ar sail llaeth a chynhyrchion sy'n deillio o laeth a ddiffinnir fel deunydd Categori 3 yn y Rheoliad hwnnw(**11**).

(ff) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 92/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran dulliau o waredu neu o ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac sy'n diwygio Atodiad VI y Rheoliad o ran trawsnewid bio-nwy a phrosesu brasderau wedi'u rendro(**12**);

(g) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 93/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran prosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n dod o bysgod a dogfennau masnachol ar gyfer cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid(**13**);

(2) Y sgil-gynhyrchion anifeiliaid a geir yn Erthyglau 4, 5 a 6 o Reoliad y Gymuned yn y drefn honno yw'r deunydd Categori 1, y deunydd Categori 2 a'r deunydd Categori 3, ac mae i ymadroddion eraill a ddiffinnir yn Rheoliad y Gymuned yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn.

(**3**) OJ Rhif L273, 10.10.2002, t.1.
(**4**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.1.
(**5**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.14.
(**6**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.22.
(**7**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.24.
(**8**) OJ Rhif L117, 13.5.2003, t.42.
(**9**) OJ Rhif L151,30.4.2004, t.11 fel y"i cywirwyd gan Gorigendwm a gyhoeddwyd yn y Cylchgrawn Swyddogol yn OJ Rhif L208, 10.6.2004, t. 9 ac fel y"i cywirwyd ymhellach gan Gorigendwm a gyhoeddwyd yn y Cylchgrawn Swyddogol yn OJ Rhif L396, 31.12.2004, t.63.
(**10**) OJ Rhif L112, 19.4.2004, t.1.
(**11**) OJ Rhif L162, 30.4.2004, t 62.
(**12**) OJ Rhif L16, 20.1.2005, p.46.
(**13**) OJ Rhif L19, 21.1.2005, p.27.

Cymeradwyaethau, etc.

3. Rhaid i unrhyw gymeradwyaeth, awdurdodiad, cofrestriad, gyfarwyddyd hysbysiad neu gydnabyddiaeth a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn neu o dan Reoliad y Gymuned fod yn ysgrifenedig, a gallant fod yn ddarostyngedig i'r amodau sy'n angenrheidiol i

(a) sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad y Gymuned a'r Rheoliadau hyn; a

(b) diogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid.

RHAN 2

Casglu, cludo, storio, trafod, prosesu a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Deunydd Categori 1

4.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n meddu ar unrhyw ddeunydd Categori 1 neu sydd â rheolaeth drosto ac sy'n methu cydymffurfio ag Erthygl 4(2) neu Erthygl 4(3) o Reoliad y Gymuned yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion Erthygl 4(2)(b) o Reoliad y Gymuned caniateir prosesu'r deunydd drwy ddefnyddio unrhyw un neu rai o ddulliau prosesu 1 i 5.

(3) Ni fydd y rheoliad hwn yn gymwys o ran deunydd y cyfeirir ato yn Erthygl 4(1)(e) o Reoliad y Gymuned (gwastraff arlwyo o gyfrwng cludo sy'n gweithredu o'r tu allan i'r Gymuned).

Deunydd Categori 2

5.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n meddu ar unrhyw ddeunydd Categori 2 neu sydd â rheolaeth drosto ac sy'n methu cydymffurfio ag Erthygl 5(2), Erthygl 5(3) neu Erthygl 5(4) (ac eithrio'r ddarpariaeth yn Erthygl 5(4) sy'n ymwneud ag allforio) o Reoliad y Gymuned yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion Erthygl 5(2)(b) o Reoliad y Gymuned caniateir prosesu'r deunydd drwy ddefnyddio unrhyw un neu rai o ddulliau prosesu 1 i 5.

(3) At ddibenion Erthygl 5(2)(e) o Reoliad y Gymuned caniateir rhoi ar dir y sgil-gynhyrchion anifeiliaid a bennir yn yr is-baragraff hwnnw ar yr amod nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod unrhyw gyfyngiadau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid mewn perthynas â'r sgil-gynhyrchion hynny.

Deunydd Categori 3

6. Bydd unrhyw berson sy'n meddu ar unrhyw ddeunydd Categori 3 neu sydd â rheolaeth drosto ac sy'n methu cydymffurfio ag Erthygl 6(2) neu Erthygl 6(3) o Reoliad y Gymuned yn euog o dramgwydd.

Cymysgu sgil-gynhyrchion mamalaidd ac anfamalaidd

7. Pan gymysgir sgil-gynhyrchion mamalaidd a sgil-gynhyrchion anfamalaidd, rhaid ystyried y cymysgedd yn sgil-gynhyrchion mamalaidd.

Casglu, cludo a storio

8.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n methu cydymffurfio ag Erthygl 7(1), 7(2) neu 7(5) o Reoliad y Gymuned yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion paragraff (1), os bydd gwahanol gategorïau o sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu cludo mewn un cerbyd ond mewn gwahanol gynwysyddion neu adrannau, ac os na

ellir gwarantu y bydd y gwahanol fathau o sgil-gynhyrchion yn hollol ar wahân, rhaid trin y sgil-gynhyrchion sy'n cael eu cludo yn unol â'r gofynion ar gyfer y sgil-gynhyrchion uchaf eu risg sy'n cael eu cludo.

(3) Yn unol ag Erthygl 7(6) o'r Rheoliad hwnnw, ni fydd darpariaethau Erthygl 7 yn gymwys i wrtaith sy'n cael ei gludo o fewn y Deyrnas Unedig.

(4) Yn unol â pharagraff 1 o Bennod X o Atodiad II i Reoliad y Gymuned, caniateir i ddogfen fasnachol sy'n cynnwys yr wybodaeth ym Mhennod III o Atodiad II i Reoliad y Gymuned, ni waeth beth fyddo'i fformat, fynd gyda sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gludir o fewn y Deyrnas Unedig.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar fynediad at sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac ar eu defnyddio

Cyfyngiadau ar roi gwastraff arlwyo a sgil-gynhyrchion anifeiliaid eraill yn fwyd

9.—(1) Mae mynd yn groes i Erthygl 22(1)(b) o Reoliad y Gymuned (sy'n gwahardd rhoi gwastraff arlwyo neu ddeunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys gwastraff arlwyo neu sy'n deillio ohono yn fwyd i anifeiliaid a ffermir) yn dramgwydd ac mae rhoi'r cyfryw ddeunyddiau'n fwyd i unrhyw anifail arall sy'n cnoi cil, i fochyn neu i aderyn hefyd yn dramgwydd.

(2) Mae rhoi unrhyw sgil-gynnyrch anifeiliaid arall ac eithrio'r canlynol yn fwyd i unrhyw anifail sy'n cnoi cil, i fochyn neu i aderyn yn dramgwydd (onid yw wedi'i brosesu'n unol â Rheoliad y Gymuned)–

(a) llaeth hylif neu laeth tor a ddefnyddir ar y fferm y mae'n tarddu ohoni; neu

(b) yn unol ag Erthygl 23(2) o Reoliad y Gymuned fel y'i cymhwysir gan reoliad 26(3) o'r Rheoliadau hyn.

Ailgylchu mewnrywogaethol

10.—(1) Mae mynd yn groes i Erthygl 22(1)(a) o Reoliad y Gymuned (sy'n gwahardd ailgylchu mewnrywogaethol) yn dramgwydd.

(2) Er gwaethaf paragraff (1), nid yw rhoi protein anifeiliaid wedi'i brosesu sy'n deillio o gyrff neu o rannau o gyrff pysgod yn fwyd i bysgod yn dramgwydd os gwneir hyn yn unol ag Erthyglau 2 i 4 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 811/2003 ac Atodiad I iddo.

(3) Yr awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 5 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 811/2003 yw'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mynediad at wastraff arlwyo a sgil-gynhyrchion anifeiliaid eraill

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran–

(a) gwastraff arlwyo o bob math (gan gynnwys gwastraff arlwyo nad yw Rheoliad y Gymuned yn gymwys iddo oherwydd Erthygl 1(2)(e) o'r Rheoliad hwnnw) onid yw naill ai–

(i) wedi'i brosesu drwy ddefnyddio dull 1 ym Mhennod III o Atodiad V i Reoliad y Gymuned, neu

(ii) wedi'i drin yn unol â Rheoliad y Gymuned ac â'r Rheoliadau hyn; a

(b) sgil-gynhyrchion anifeiliaid eraill nad ydynt wedi'u prosesu na'u trin yn unol â Rheoliad y Gymuned ac â'r Rheoliadau hyn.

(2) Mae unrhyw berson sy'n dod ag unrhyw wastraff arlwyo neu sgil-gynnyrch anifeiliaid arall (ac eithrio llaeth, llaeth tor, gwrtaith neu gynnwys y llwybr treulio) i mewn i unrhyw fangre lle y cedwir da byw yn euog o dramgwydd.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys os yw meddiannydd y fangre a'r person sy'n rheoli'r sgil-gynhyrchion yn sicrhau nad oes gan y da byw fynediad at y sgil-gynhyrchion, ac–

(a) os caiff y sgil-gynhyrchion eu cludo i'r fangre ar gerbyd sy'n dod i mewn i'r fangre i gasglu sgil-gynhyrchion eraill ac os na symudir y sgil-gynhyrchion o'r cerbyd tra byddo'r cerbyd yn y fangre;

(b) os caiff y sgil-gynhyrchion eu dwyn, yn unol â'r gymeradwyaeth neu'r awdurdodiad ar gyfer y gweithfeydd perthnasol, i fangre lle y mae'r gweithfeydd canlynol wedi'u lleoli–

(i) canolfan gasglu, gweithfeydd bwyd anifeiliaid anwes, llosgydd neu fangre gymeradwy arall a oedd ar waith fel mangre gymeradwy ar 1 Tachwedd 2002; neu

(ii) gweithfeydd hanner-ffordd Categori 3, gweithfeydd technegol neu weithfeydd lle y defnyddir y sgil-gynhyrchion anifeiliaid at ddibenion addysgol, dibenion ymchwilio, neu ddibenion diagnostig; neu

(c) os bwriedir rhoi'r sgil-gynhyrchion yn fwyd i anifeiliaid yn y fangre yn unol ag Erthygl 23(2) o Reoliad y Gymuned fel y'i cymhwysir gan reoliad 26(3) o'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i unrhyw berson y mae ganddo yn ei feddiant garcas neu ran o garcas unrhyw dda byw nas cigyddwyd i'w bwyta gan bobl, tra byddo'n disgwyl anfon y carcas neu'r rhan o garcas neu ei waredu neu ei gwaredu'n unol â Rheoliad y Gymuned a'r Rheoliadau hyn, sicrhau y'i cedwir yn y fath fodd fel nad oes gan anifeiliaid ac adar (gan gynnwys anifeiliaid ac adar gwyllt) fynediad ato neu ati, ac mae methu gwneud hynny'n dramgwydd.

(5) Mae i unrhyw berson ganiatáu i dda byw gael mynediad at unrhyw wastraff arlwyo neu sgil-gynnyrch anifeiliaid arall yn dramgwydd ac eithrio at–

(a) gwrtaith;

(b) llaeth neu laeth tor;

(c) cynnwys llwybr treulio a roddwyd ar dir ar yr amod na chaniateir i dda byw fynd ar y tir am dair wythnos o leiaf ar ôl ei roi ar y tir; neu

(ch) gwrtaith a gynhyrchwyd ac a roddwyd ar dir yn unol â rheoliad 16 ar yr amod y cydymffurfir ag amodau'r rheoliad hwnnw.

(6) Mae i unrhyw berson ganiatáu i unrhyw anifail gael mynediad at ddeunydd sy'n deillio o wastraff arlwyo neu sgil-gynnyrch anifeiliaid arall mewn gweithfeydd bio-nwy neu gompostio yn dramgwydd, ac eithrio nad yw'n dramgwydd i adar gwyllt gael mynediad at y deunydd yn ystod ail gyfnod compostio neu gyfnod compostio dilynol.

(7) Yn y rheoliad hwn ystyr "da byw" yw pob anifail a ffermir, ac unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cnoi cil, moch ac adar (ac eithrio adar gwyllt).

Tir pori

12.—(1) Mae mynd yn groes i Erthygl 22(1)(c) o Reoliad y Gymuned (rhoi deunydd ar dir pori) yn dramgwydd.

(2) At ddibenion paragraff (1), tir y bwriedir ei ddefnyddio i bori neu gnydio bwydydd anifeiliaid ar ôl rhoi neu ddyroddi arno wrteithiau organig a deunyddiau i wella'r pridd (ac eithrio gwrtaith neu gynnwys llwybr treulio) o fewn y cyfnodau canlynol yw tir pori–

(a) deufis yn achos moch; a

(b) tair wythnos yn achos anifeiliaid eraill a ffermir.

(3) Bydd unrhyw berson sydd–